# Polisi Aflonyddu Rhywiol

# Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

**Rhagarweiniad**

Mae'r ddogfen hon yn gosod y broses gofnodi a delio gyda honiadau o aflonyddu rhywiol ac yn cadarnhau safiad dim goddefgarwch at aflonyddu rhywiol yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber).

**Datganiad Polisi**

Mae gan UMAber safiad dim goddefgarwch at aflonyddu rhywiol ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo a chynnal amgylchedd lle caiff pawb eu trin gyda pharch ac urddas, yn rhydd o gamwahaniaethu, erledigaeth ac unrhyw ffurf o aflonyddu. Cred UMAber fod gan bob myfyriwr yr hawl i deimlo'n ddiogel, yn gyfforddus ac yn hapus yn eu hamgylchedd.

**Beth yw aflonyddu rhywiol?**

Aflonyddu rhywiol yw rhywbeth sy'n ddi-groeso, yn barhaus ac o natur rywiol. Ymhlith enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol mae:

- Sylwadau rhywiol digroeso (gan gynnwys sylwadau ynglŷn â'ch corff neu eich bywyd preifat).
- Gwahoddiadau rhywiol digroeso, esyniadau ac ystumiau sarhaus.
- Chwibanu, gweiddi neu synau rhywiol sarhaus.
- Gafael, pinsio neu daro eich corff.
- Codi dillad rhywun neu ei dynnu amdano heb ganiatâd.
- Rhywun yn dangos eu horganau rhywiol i chi heb gydsyniad.

Mae aflonyddu rhywiol yn fath o gamwahaniaethu rhywiol a all gynnwys unrhyw un beth bynnag fo'u hunaniaeth ryweddol, mynegiant rhywiol neu ryw biolegol.

**Beth yw trais rhywiol?**

Mae person yn cyflawni trais rhywiol os bydd yn mynd i mewn i wain, anws neu geg person arall yn fwriadol heb gydsyniad. Mae person yn cyflawni ymosodiad rhywiol os yw'n cyffwrdd â pherson arall yn fwriadol, mae'r cyffwrdd yn rhywiol ac nid yw'r person yn cydsynio. Cydsyniad yw pan mae rhywun yn cytuno â gweithgaredd rhywiol gyda phobl eraill. Mae cydsyniad wastad yn cael ei roi o wirfodd a rhaid i bawb mewn sefyllfa rywiol deimlo fel bod modd iddynt gytuno, anghytuno, neu roi diwedd ar y gweithgaredd rhywiol ar unrhyw bryd.

Mae UMAber yn argymell yn gryf y dylai unrhyw un sy'n teimlo eu bod wedi dioddef trais rhywiol roi gwybod i'r heddlu ar unwaith. Mae UMAber yn deall y gallai hyn fod yn anodd ac efallai bod y dioddefwr am dynnu sylw pobl eraill cyn ystyried rhoi gwybod i'r heddlu.

**Beth ddylwn i ei wneud os hoffwn i dynnu sylw at achos(ion) o aflonyddu rhywiol?**

Caiff pob sylw at aflonyddu rhywiol ei drin yn hollol gyfrinachol, mewn modd amserol a chan ystyried llesiant y dioddefwr.

Os hoffech dynnu sylw at achos(ion) o aflonyddu rhywiol, cewch wneud hynny drwy un o ffyrdd canlynol:

- Ymweld â'n gwefan a defnyddio ein ffurflen ar-lein.
- Rhoi gwybod i Swyddogion Llawn Amser UM Aber neu aelod o dîm UM Aber a fydd yn gallu eich cyfeirio at y ffurflen ar-lein uchod neu drefnu apwyntiad gyda Chynghorydd.

Mae ein ffurflen ar-lein yn caniatáu i unigolion sydd wedi cael profiad o aflonyddu rhywiol dynnu sylw at achos(ion) yn ddienw neu gael eu cysylltu gan Gynghorydd am gymorth pellach.

Gellir cyflwyno adroddiadau dienw gan bobl eraill sydd efallai wedi gweld yr achos(ion), ond ni chaiff y rhain ond eu cofnodi at ddibenion ystadegau.

Bydd cyfle gan bawb sy'n defnyddio'r mecanweithiau uchod i gyfarfod â Chynghorydd i drafod y cymorth sydd ar gael a'r camau pellach y gellid eu cymryd. Pan fydd y rheiny sy'n tynnu sylw'n ddienw yn dewis peidio â gweld Cynghorydd, bydd diwedd y ffurflen achos yn cynnwys gwybodaeth gyfeirio briodol.

**Beth fydd yn digwydd unwaith i mi dynnu sylw at achos o aflonyddu rhywiol?**

Unwaith y daw achos at sylw UMAber, byddwn yn creu cofnod llawn o'r achos(ion), gan gynnwys:

- amser, dyddiad a lleoliad yr achos(ion)
- disgrifiad manwl o'r achos(ion) yng ngeiriau'r dioddefwr
- canlyniad dymunol cyflwyno adroddiad (boed hynny yw tynnu sylw at achos yn unig i dargedu ymddygiad neu geisio gweithredu priodol yn erbyn y rheiny a gaiff eu hystyried yn gyfrifol)

Pan fydd cwyn yn ymwneud â gweithgareddau neu eiddo sy'n perthyn i UMAber, efallai byddwn yn archwilio ac yn gweithredu pan fo'n briodol gan ddefnyddio Gweithdrefn Ddisgyblu UMAber. Felly, efallai bydd angen i ni gysylltu â'r unigolion a gaiff eu hystyried yn gyfrifol. Serch hynny, ni chaiff y dioddefwr byth ei orfodi i gyflafareddu na bod yn yr un ystafell â'r rheiny a gaiff eu hystyried yn gyfrifol.

Caiff pob achos ei gofnodi gan UMAber a bydd UMAber yn dadansoddi'r data'n rheolaidd i ganfod ac i weithio gyda'r Swyddogion Llawn Amser i ymateb yn briodol i dueddiadau ar y campws neu yn y gymuned leol. Ni chaiff unrhyw ddata sy'n enwi'r dioddefwr neu'r rheiny a gaiff eu hystyried yn gyfrifol ei gynnwys yn y dadansoddiad hwn. Yn hytrach, pan ofynnir am gymorth neu pan gaiff cwyn ei gwneud, bydd y prosesau perthnasol yn cofnodi'r wybodaeth hon h.y. ffeil achos neu lythyr cwyno.

**Beth fyddai'n digwydd pe bai'r polisi hwn yn cael ei dorri?**

Mae gan UMAber safiad dim goddefgarwch at aflonyddu rhywiol. Mae unigolion sy'n cyflawni aflonyddu rhywiol yn peryglu mynd trwy weithdrefnau disgyblu UMAber a/neu Brifysgol Aberystwyth a gallent wynebu cosbau a all gynnwys:

- Rhybudd ffurfiol
- Gwaharddiad rhag holl weithgareddau UMAber

- Diwedd ar aelodaeth o Undeb y Myfyrwyr

Pan gaiff gweithrediadau troseddol eu hystyried yn briodol a bydd y dioddefwr yn tynnu'r mater at sylw'r heddlu, bydd gweithdrefnau troseddol yn drech na gweithdrefnau disgyblu UMAber. Yn yr achos hwn, caiff unrhyw weithred gan UMAber ei ystyried unwaith i'r heddlu orffen ei archwiliad troseddol.

**Beth all y brifysgol ei wneud?**

Os nad oes modd i UMAber ddatrys y mater hwn yn fewnol, gellid rhoi gwybod i Brifysgol Aberystwyth (ar ddisgresiwn yr unigolyn sy'n tynnu sylw at yr achos). Caiff hwn ei ddelio gan Reolau a Rheoliadau'r Brifysgol, a all gynnwys defnyddio Gweithdrefn Gwyno'r Myfyrwyr a/neu'r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.

**Ble allaf fynd am gymorth os ydw i wedi dioddef aflonyddu, ymosodiad neu drais rhywiol?**

Mae ystod o rolau, gwasanaethau a mudiadau'n gallu cynnig cymorth o ran achosion o aflonyddu rhywiol. Er mwyn eich cyfeirio'n briodol, mae'r rhain wedi'u trefnu yn ôl y rheiny a all roi cymorth uniongyrchol i chi neu eich cyfeirio'n effeithiol at fudiadau allanol.

**Cymorth Uniongyrchol**

- Gwasanaeth Cynghori UMAber
- Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (gan gynnwys Cyngor, Gwybodaeth a Chymorth ar Iechyd a Llesiant)

**Cyfeirio Effeithiol**

Byddwch yn ymwybodol nad rôl unrhyw un isod yw cynghori ar achos(ion) o aflonyddu rhywiol. Serch hynny, os ydych yn ansicr ynglŷn â ble i fynd neu os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn tynnu sylw at y mater yn uniongyrchol, gallent eich cyfeirio at gymorth uniongyrchol.

- Swyddog Lles UMAber
- Mentor (os yw'n briodol)
- Tiwtor Personol
- Pennaeth Adran
- Cynorthwyydd Bywyd Preswylfa neu Reolwr Bywyd ar y Campws (yn y Neuaddau)

**Mudiadau Allanol**

- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru
- Canolfan Gefnogaeth Treisio Canolbarth Cymru
- Gwasanaeth Argyfwng Trais
- Survivors UK